

Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Adroddiad Effaith Blynyddol

2020–21

# Cynnwys


**03** **Ein Cylch Strategol**

**04** **Ein Pwrpas**

**06** **Buddugoliaethau Myfyrwyr**

**09** **Ymgysylltiad a Boddhad**

**11** **Sut wnaethon ni addasu i COVID-19**

**27** **Cyllid**


Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd



# Ein Cylch Strategol

**Yn 2018, lansiodd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd strategaeth tair blynedd newydd, y flwyddyn 2020-21 roedd y flwyddyn olaf i fesur cyrhaeddiant yn erbyn yr uchelgeisiau strategol hynny.**

## Ein Gweledigaeth Strategol

- Gweithio gyda phob myfyriwr yng Nghaerdydd i wella eu profiad yn y brifysgol.

## Ein Gwerthoedd

- Arweinyddiaeth myfyrwyr
- Cynhwysiant
- Partneriaeth
- Amrywiaeth

Roedd 2020-2021 yn flwyddyn wahanol iawn i bawb yn y gymdeithas. Effeithiodd y pandemig COVID-19 ar y rhan fwyaf o weithrediadau'r Undeb. Arweiniodd hyn at staff yn cael eu rhoi ar Ffyrlo neu'n gweithio o gartref, daeth ein gweithgareddau wyneb yn wyneb i stop ac addaswyd ein gwasanaethau myfyrwyr i ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr ar-lein.

Roedd hyn yn golygu bod llawer o nodau strategol 2018 wedi'u seibio ac yn lle hynny, daeth 2020 yn flwyddyn o arloesi digidol ac addasu i amgylchiadau newydd. Newidiodd ffocws y sefydliad at gefnogi myfyrwyr gyda chyngor ac arweiniad trwy ein Tîm Cyngor Myfyrwyr, i helpu i gynrychioli myfyrwyr a brwydro yn erbyn heriau trwy'r Tîm Llais Myfyrwyr a pharhau i ymgysylltu a chysylltu'n ddigidol â myfyrwyr trwy ein Tîm Cyfathrebu.

Mae'r adroddiad effaith hwn yn adlewyrchiad ac yn ddathliad o'r datblygiadau arloesol a'r gwytnwch hynny a ddangoswyd gan y sefydliad trwy gydol un o'r cyfnodau mwyaf ansefydlog yn hanes y sefydliad.



# Ein Pwrpas

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn hyrwyddo addysg myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd trwy:

- **Hyrwyddo diddordebau a lles myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol trwy gynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr.**
- **Bod yn sianel gynrychioliadol gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a**
- **Darparu gweithgareddau a fforymau cymdeithasol, diwylliannol a chwaraeon ar gyfer trafodaethau ar ddatblygiad personol myfyrwyr.**

# Swyddogion Sabothol



# Buddugoliaethau Myfyrwyr

**"Fe wnaethon ni lobïo am uwchraddio systemau AD y Brifysgol i gynnwys mynediad ar gyfer PGR's a gweithwyr sy'n fyfyrwyr. Nawr gall yr holl arddangoswyr a gweithwyr myfyrwyr achlysurol weld slipiau cyflog a dogfennau PAYE ar-lein! "**

Jane, IL Myfyrwyr Ôl-raddedig.

**"O ganlyniad i'ch adborth mae'r Brifysgol wedi creu polisi rhwyd diogelwch ar gyfer y flwyddyn 2020/21 er mwyn diogelu eich cynnydd academaidd, mae hyn yn cynnwys cael ail-eistedd arholiadau gyda graddau heb eu capio!" - @EducationCSU**

Hannah, , IL Addysg.

**"Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Addysgu ac Asesu i ymestyn y Polisi Astudio o Bell i'r Ail Semester. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i astudio o bell os dymunant."**

Hannah, Seb and Jane, IL Addysg, IL Parc y Mynydd Bychan ac IL Myfyrwyr Ôl-raddedig

**"Yn dilyn eich adborth, rydym wedi gweithio gyda Llyfrgelloedd y Brifysgol i gynyddu slotiau llyfrgell o ddwy i dair awr o fis Ionawr 2021. Rydym hefyd wedi sicrhau slotiau amser byrrach ar gyfer myfyrwyr sydd angen defnyddio'r gwasanaethau argraffu. "**

Hannah, Seb and Jane, VP Education, VP Heath Park Campus and VP Postgraduate Students.

**"Roedd Nadolig 2020 yn edrych ychydig yn wahanol gyda llawer o fyfyrwyr yn methu teithio adref. Er mwyn cefnogi myfyrwyr, fe wnaethom anfon cannoedd o 'flychau codi ysbryd' i helpu myfyrwyr i aros yn bositif!"**

Georgie, Tom, Jane, Seb, Luke, Jude a Hannah - Tîm Swyddogion Sabothol

**"Rydyn ni wedi lansio ymgyrch i sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol y gallan nhw newid eu tiwtor personol os nad ydyn nhw'n dod ymlaen yn dda."**

Hannah, Seb, Georgie a Jane, IL Addysg, IL Campws y Mynydd Bychan, IL Lles ac IL Myfyrwyr Ôl-raddedig

# Prif Weithredwr

Er gwaethaf yr heriau amlwg wrth ddarparu ein gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roeddem yn gallu parhau i ddarparu cefnogaeth werthfawr i'n myfyrwyr a chynnal rôl weithredol ym mywydau myfyrwyr. Ar ddechrau'r pandemig gwnaethom flaenoriaethu ein gwasanaeth cynghori myfyrwyr, cefnogi llais myfyrwyr a darparu cyfathrebiadau myfyrwyr ac rwy'n falch ein bod, trwy waith caled ein swyddogion a'n staff, wedi sicrhau buddugoliaethau nodedig.

Fel undeb myfyrwyr hynod fasnachol, cafodd ein gweithgareddau eu heffeithio'n sylweddol, sydd i'w gweld yn ein ffigurau ymgysylltiad a'n perfformiad ariannol. Yn wahanol i'r Brifysgol ehangach gwnaethom golled yn ystod y flwyddyn ac rydym yn disgwyl gwneud colledion pellach yn 2021/22 wrth i ni anelu at ail-ymgysylltu â myfyrwyr a chyrraedd lefelau ymgysylltiad a welsom cyn y pandemig.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn ffyddiog y byddwn yn dod allan o'r pandemig yn hyderus ac yn barod ar gyfer y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn croesawu agoriad y Ganolfan Bywyd Myfyrwyr, byddwn yn lansio ein strategaeth newydd a byddwn yn croesawu'r derbyniad israddedig mwyaf yn hanes y Brifysgol. Byddwn yn cychwyn ar y siwrnai hon mewn partneriaeth â'n myfyrwyr a'n staff, yn goddef unrhyw betruster, yn blaenoriaethu gwneud pethau'n iawn cyn cyflawni pethau'n gyflym a chydag iechyd, diogelwch a lles ein myfyrwyr a'n staff wrth wraidd ein cynlluniau.

**Daniel Palmer**
**Prif Weithredwr**



# Undeb Myfyrwyr Arlywydd

Am flwyddyn mae hyn wedi bod! Mae myfyrwyr, ynghyd â'r gymuned ehangach, wedi wynebu heriau a newidiadau aruthrol. Nid oes unrhyw beth tebyg eriod wedi disgwydd. Er gwaethaf hyn, mae'r gymuned myfyrwyr wedi goroesi'r amseroedd anodd hyn ac wedi gwirfoddoli yn y gymuned, wedi gweithio i'r GIG ac wedi astudio'n galed.

Bu chwyldro o ran ein gweithgaredd digidol. Roedd lles myfyrwyr yn un o'n blaenoriaethau a gwnaethom sicrhau £50k gan HEFCW i'n cefnogi i gynnal ymgyrchoedd fel 'Spring in Your Step', cynnal gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar les a chefnogi myfyrwyr â'u hastudiaethau. Gwelsom nifer y pleidleiswyr yn etholiad y gwanwyn uchaf erioed, aeth ymgyrch wythnos siarad yn rhithwir ac roedd ESLAs yn cydnabod y cyfraniadau anhygoel i'n cymuned yn ystod yr amser hwn.

Fel undeb myfyrwyr gwnaethom barhau i lobïo dros ein myfyrwyr yn ystod y pandemig. Rydym wedi bod yn cefnogi eu lles a'u diddordebau academaidd trwy gyflwyno'r polisi rhwyd ddiogelwch. Byddwn yn bwrw ymlaen a'r elfennau o weithgaredd rithwir a oedd yn llwyddiant.

Rwy'n falch iawn o'r tîm a'r gymuned ehangach am ddod at ein gilydd o bell i gyflawni cymaint. Rydym wedi parhau i hyrwyddo llais myfyrwyr yng nghalon y campws.

Fel sefydliad mae ein staff wedi bod yn ymroddedig i gefnogi myfyrwyr a gwella eu profiad trwy gydol y pandemig. Heb eu cefnogaeth ochr yn ochr â'r tîm swyddogion etholedig ni fyddem wedi gallu cyflawni cymaint.

**Hannah Doe**
**Is-lywydd Addysg 2020 -2021**
**Llywydd Undeb y Myfyrwyr 2021-2022**



# Ymgysylltiad a Boddhad

## Mesur ymgysylltiad

Ein gweledigaeth yw bod yn galon bywyd myfyrwyr a mesur allweddol wrth ddangos sut rydym yn gwneud hyn yw trwy ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau y mae ein myfyrwyr yn eu defnyddio er budd iddynt. Rydym yn mesur ymgysylltiad trwy gyfrif defnyddwyr pob gwasanaeth tra'n ymdrechu i gynyddu ymgysylltiad, yn enwedig mewn grwpiau lle mae ymgysylltiad wedi bod yn is yn hanesyddol. Yn dilyn y pandemig, ymgysylltodd tua 73% o'r holl fyfyrwyr â ni mewn blwyddyn benodol, a chymerodd dros 90% o'r myfyrwyr ran yn ein gweithgareddau tra yn y Brifysgol.

Yn 2020/21 cymerodd 17,401 o fyfyrwyr ran yn ein gweithgareddau, yn sylweddol is o'r 21,658 a gymerodd ran yn y flwyddyn flaenorol ond yn unol â'n disgwyliadau oherwydd diffyg gweithgaredd wyneb yn wyneb. Gwelodd y rhan fwyaf o ardaloedd rywfaint o ostyngiad mewn ymgysylltiad â meysydd oedd yn hanesyddol uchel, fel ein Ardaloedd Cymdeithasu a Varsity - nid oedd y rhain wedi gweithredu o gwbl yn ystod y flwyddyn. Un maes sy'n sefyll allan o ganlyniad i'r ymgysylltiad uchel oedd y nifer a bleidleisiodd mewn etholiadau, gyda 9,228 o fyfyrwyr yn pleidleisio, yn ystod etholiad undeb myfyrwyr mwyaf y DU yn 2020. Rydym wedi blaenoriaethu dychwelyd i lefelau cyn-bandemig o ymgysylltiad yn ein cynlluniau ar gyfer 2021/22. Er ei bod yn anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol, credwn fod ein lefel o ymgysylltiad myfyrwyr ymhlith yr uchaf yn y DU.

## Boddhad

Rydym yn monitro lefelau boddhad myfyrwyr trwy arolygon mewnol ac allanol ac yn defnyddio'r mesurau hyn i asesu perfformiad cyffredinol. Oherwydd y pandemig ni chynhaliodd llawer o gyrff allanol ymchwil ar foddhad myfyrwyr felly gwnaethom gynnal ein harolwg ein hunain a oedd hefyd yn ceisio deall yr hyn yr oedd ein myfyrwyr eisiau yn ystod y pandemig. O'r bron i 2,000 o fyfyrwyr a gymerodd ran, roedd 78% yn fodlon â'r Undeb, gyda 5% yn anfodlon.



# Ymgysylltiad



# Ein 10 camp

## Sut wnaethon ni addasu i COVID-19



# Grwpiau myfyrwyr yn goroesi

**Mewn blwyddyn pan gafodd y pandemig effaith ddifrifol ar lawer o'n gweithgareddau traddodiadol, bu'n rhaid i lawer o'n grwpiau esblygu i ddarparu gweithgaredd rhithwir am y tro cyntaf, yn ogystal ag addasu i ddarparu llai o ddarpariaeth wyneb yn wyneb pan ganiateir canllawiau'r Llywodraeth.**

Er gwaethaf yr heriau, cyflawnodd llawer o grwpiau weithgareddau ac roedd mwyafrif llethol y timau chwaraeon, cymdeithasau a grwpiau gwirfoddoli yn gallu sicrhau eu bod yn goroesi ac yn trosglwyddo eu grŵp i'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

## Roedd cefnogaeth a llwyddiannau grwpiau myfyrwyr yn cynnwys:

- Rhoi cyngor ac arweiniad cyfoes ar ddehongli rheolau Covid-19 cenedlaethol, lleol a gweithgaredd-benodol.
- Cefnogwyd dros 18 o glybiau, cymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli gyda grantiau i ymgymryd â gweithgaredd rhithwir gyda ffocws ar wella lles myfyrwyr.
- Cefnogi a chynnal grwpiau i'w hatal rhag gwywo i ffwrdd yn ystod cyfnodau o anactifedd.
- Gwnaethom ad-dalu myfyrwyr am gost eu haelodaeth flynyddol i'r Undeb Athletau ac Urdd y Cymdeithasau yng sgîl gweithgaredd llai, waeth beth oedd y budd a ddeilliodd
- Cafodd dros 90 o grwpiau myfyrwyr grantiau adfer Covid - gan gefnogi'r grwpiau sydd â'r angen mwyaf i ailadeiladu ar gyfer y dyfodol

**Llwyddodd 61 o 67 o glybiau chwaraeon cysylltiedig i ddarparu rhyw fath o weithgaredd corfforol wyneb yn wyneb i'w haelodau."**



- Llwyddodd ein Cyfryngau Myfyrwyr i aros yn egnïol a chael ymgysylltiad da trwy gydol y flwyddyn - gan gynnwys ennill rhai gwobrau allanol:
  - Gwobrau Cymdeithas Radio Myfyrwyr 2020
  - Gwobr aur ar gyfer categori Aml-blatfform gan Eggs Marks The Spot
  - Gwobr efydd ar gyfer Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant
  - Gwobr efydd i'r Cynhyrchydd Gorau - Holly Markham

# Blaenoriaethu lles myfyrwyr

**Effeithiodd y pandemig yn ddifrifol ar les myfyrwyr, gyda llawer o fyfyrwyr yn methu â gwneud ffrindiau newydd, cymdeithasu na chymryd rhan yn y gweithgareddau profiad myfyrwyr sydd fel arfer yn eu cefnogi i adeiladu cymunedau ar y campws.**

Diolch i grant o £50,000 gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, llwyddodd yr Undeb i gynnal ymgyrchoedd lles pwrpasol a chefnogi grwpiau myfyrwyr i ddarparu digwyddiadau rhithwir i'w haelodau.

## Hop, cam a naid i mewn i'r gwanwyn

Dosbarthwyd 500 o becynnau ymwybyddiaeth ofalgar, gan gynnwys deunyddiau hunangymorth ac hadau y gallai fyfyrwyr tyfu.

Darparwyd 300 o becynnau Get Active i helpu myfyrwyr i fod yn egnïol o amgylch y ddinas gyda dros 240 yn ymgysylltu â grŵp Strava.

## Pecynnau Lles:

Fe wnaethom ddarparu 150 o becynnau Golafu trwy'r Gaeaf i fyfyrwyr sy'n aros yng Nghaerdydd dros gyfnod y Nadolig, 100 o becynnau cymorth LGBTQ+ yn ystod mis hanes LGBTQ + a 50 o becynnau cymorth i rieni a gofalwyr.

## Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl:

Mae dros 70 o staff a myfyrwyr wedi cwblhau cymhwyster hyfforddi Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, gan ddarparu sgiliau gwell i'n staff a'n harweinwyr myfyrwyr i gefnogi myfyrwyr.

## Hyfforddiant Atal Hunanladdiad:

Fe wnaethom ddarparu Hyfforddiant Atal Hunanladdiad i 469 o fyfyrwyr ym mis Rhagfyr - gan gynorthwyo myfyrwyr ac arweinwyr myfyrwyr â sgiliau a gwybodaeth i roi cefnogaeth cymheiriaid.

**"Talwyd dros £10,000 i grwpiau myfyrwyr i ddarparu llesiant ar-lein a gweithgaredd rhithwir - gan eu helpu i ymgysylltu â'u haelodau er gwaethaf heriau'r pandemig."**



# Arloesi Cyfathrebu Digidol

## Nid oedd cyfathrebu erioed yn bwysicach trwy gydol y pandemig, daeth parhau i fod yn gysylltiedig a rhannu negeseuon hanfodol â myfyrwyr yn flaenoriaeth allweddol.

Fe wnaethon ni arloesi mentrau a helpodd weithio o bell gan gynnwys defnyddio Microsoft Teams, darllediadau byw, podlediadau a sesiynnau Holi ac Ateb byw.

Fe wnaethom addasu i gynnal a darlledu llawer o hoff ddigwyddiadau myfyrwyr ar-lein trwy feddalwedd OBS yn fyw. Roedd hyn yn golygu bod miloedd o fyfyrwyr yn gallu gwylio digwyddiadau fel y CCB, canlyniadau Etholiad y Gwanwyn, a gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr er gwaethaf y cyfyngiadau.

Buom yn gweithio gyda'r tîm Swyddogion Sabothol i lansio sianel podlediad newydd, 'Clonc', sy'n golygu sgwrsio yn Gymraeg, ac rydym wedi mynd ymlaen i gynnal podlediadau gan grwpiau myfyrwyr fel rhan o'n hamcanion adeiladu cymunedol.

**Fe wnaethon ni gynyddu cyfraddau agor e-byst i 40% a chyrhaeddom ni 10 mil o ddilynwyr ar Instagram "**



# Cynyddu cefnogaeth cyngor



Arhosodd Cyngor Myfyrwyr ar agor a daeth yn wasanaeth â blaenoriaeth yn gweithredu trwy gydol y pandemig a pharhau i gynnig gwasanaeth arbenigol o bell. Gyda llawer o astudiaethau myfyrwyr a bywydau yn y brifysgol a thu hwnt wedi cael eu heffeithio'm ddifrifol gan y pandemig, roedd ein Tîm Cyngor arbenigol wrth law i gynorthwyo myfyrwyr i lywio'r amseroedd heriol hyn.

Cofnodwyd bron i 5,500 o ymrwymiadau cyngor, gan gefnogi 3,313 o fyfyrwyr.

**Gwelsom gynnydd yn y defnydd o ein tudalennau Cyngor, o 19,143 yn 2019/20, i 85,376 yn 2020/21."**

Roeddem yn gallu addasu ar unwaith i ateb y galw ac i sicrhau bod ein cyngor yn hygyrch trwy:

- Ailysgrifennu tudalennau gwe presennol a'u creu o'r newydd lle bo angen oherwydd COVID-19 (ee gwnaethom greu tudalen cyngor cwynion benodol ar COVID-19).
- Wneud defnydd o we-sgwrs byw.
- Gynghori yn bennaf trwy e-bost.
- Gynnig apwyntiadau dros y ffôn, Teams/Zoom lle bo angen
- Barhau i gefnogi myfyrwyr a chynrychioli mewn gwrandawiadau o bell.



# Parhau i Fasnachu

**Effeithiwyd yn sylweddol ar lawer o'n gweithgareddau masnachu arferol trwy gydol y pandemig, gyda phob digwyddiad clwb nos wedi canslo a gweithgareddau masnachu cyffredinol wedi'u cyfyngu trwy'r flwyddyn academaidd gyfan.**

Pan ganiateir, addasodd ein tîmau i reoliadau Covid-19 i ganiatáu i fyfyrwyr ddal i gwrdd a chymdeithasu yn Y Taf ac yn Y Plas. Cyflwynodd y tîm gwasanaeth bwrdd, gyda myfyrwyr yn archebu'r holl fwyd a diod i fyrddau trwy ein ap.

Yn sgil galw sylweddol gan fyfyrwyr oherwydd cau llawer o fannau astudio ar y campws a'r amgylcheddau gwaith cartref anodd yr oedd llawer o fyfyrwyr yn eu hwynebu, fe wnaeth ein tîmau troi ein gweithrediadau masnachu yn ystod y dydd i ddod yn Caffi Astudio.

Dros y 6 wythnos gyntaf, defnyddiodd bron i 2,000 o fyfyrwyr y lle i astudio mewn modd diogel ac roeddent yn gallu archebu bwyd a diod i'w bwrdd o'r ap CUSU. Roedd hyn yn cynnwys aros ar agor trwy gydol cyfnod y Nadolig pan gaewyd llawer o gyfleusterau'r campws.

Roedd mesurau diogelwch yn cael eu haddasu'n aml i fodloni a rhagori ar reoliadau i sicrhau y gallem fod ar agor lle bynnag y byddai'n ddiogel ac yn bosibl gwneud hynny.



**Gwnaethpwyd dros 3,600 o archebion bwrdd trwy gydol y flwyddyn. Arweiniodd hyn at dros 50,000 o archebion gan bron i 16,000 o ddefnyddwyr trwy ein ap CUSU - gan ddosbarthu bwyd a diod yn syth i'r byrddau.**

**"**

# Datblygiad Digidol Masnachol

Roedd y gallu i addasu yn thema sy'n codi dro ar ôl tro ar draws ein ardaloedd masnachol eraill.

Llwyddodd ein siop nwyddau, Caru Caerdydd i ddatblygu model gweithredu siop hybrid, siop ffisegol a siop ar-lein, i addasu i reoliadau manwerthu.

**Roedd gwerthiannau ar-lein wedi goruchafu gwerthiannau'r siopau ffisegol am y tro cyntaf yn hanes Caru Caerdydd, gyda chynnydd o 52% mewn gwerthiannau drwy'r siop ar-lein o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.**

"

Cyflwynwyd ystod ddillad newydd "Dosbarth '21" wedi'i phersonoli am y tro cyntaf, gan ganiatáu i fyfyrwyr brynu hwdis a oedd yn cynnwys eu henwau a'u cyd-ddisgyblion. Fe helpodd hyn i gynyddu gwerthiant nwyddau graddio gan 150%, er nad oedd seremonïau yn cael eu cynnal.

Addasodd ein hasiantaeth osod, Cardiff Student Letting, i ddarparu teithiau rhithwir i fyfyrwyr o'r holl lety pan nad oedd hawl cynnal ymweliadau. Roedd hyn yn golygu bod myfyrwyr yn gallu gweld llety newydd ar-lein - o wylio'n rhithwir dros Zoom, i broses arwyddo contract digidol newydd - bydd llawer o'r gwelliannau digidol hyn yn cael eu cadw i gynyddu hwylusrwydd ffeindio tai myfyrwyr yn y dyfodol.

**Cynyddodd asiantaeth Gosod Myfyrwyr Caerdydd yn gyffredinol nifer y tai a osodwyd gan 50 - sy'n golygu bod ein hasiantaeth gosod dielw yn helpu mwy o fyfyrwyr i ddod o hyd i gartrefi nag erioed o'r blaen.**

"

# Y nifer a bleidleisiodd




## Mae democratiaeth myfyrwyr yn biler craidd Undeb y Myfyrwyr ac eleni roeddem yn gallu ymgysylltu mwy o fyfyrwyr â'n proses ddemocrataidd nag erioed o'r blaen!

Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar ein Etholiadau Gwanwyn, gyda llawer o'r gweithgareddau wyneb yn wyneb, fel gorsafoedd pleidleisio ar y campws, yn methu â digwydd.

Gan ddefnyddio'r arbedion hynny a wnaed, llwyddodd yr Undeb i gynnig taleb i fyfyrwyr ar gyfer ymgysylltu a phleidleisio yn yr etholiad. Pleidleisiodd dros 9,000 o fyfyrwyr yn Etholiadau'r Gwanwyn a hwn oedd y nifer uchaf a bleidleisiodd ymysg holl Undebau Myfyrwyr yn y DU.

### Yr ystadegau:

**52 o ymgeiswyr ar gyfer 17 o swyddi**

(v 55 o ymgeiswyr ar gyfer 17 o swyddi yn 2019/20)

**9,111 o bleidleiswyr unigol**

(v 5,562 yn 2019/20)

**141,790 o bleidleisiau**

(vs. 46,235 in 2019/20)

# Mae gwasanaethau myfyrwyr yn troi'n ddigidol

## Roedd addasu'n gyflym i fyd sy'n newid yn bwysig i'n gwasanaethau myfyrwyr gan arwain at ail-drefnu systemau, prosesau a dulliau o ddarparu gwasanaethau i fyfyrwyr nad oeddent bellach yn bresennol ar y campws.

Mae llawer o'r datblygiadau arloesol hyn wedi parhau ar ôl i'r cyfyngiadau leddfu gan roi mwy o ddewis i fyfyrwyr a chynyddu hygyrchedd i'w helpu i gymryd rhan.

### Llwyfan Hyfforddiant Digidol ar gyfer Grwpiau Myfyrwyr

Llwyddodd dros 5,000 o arweinwyr myfyrwyr i dderbyn gwybodaeth a hyfforddiant hanfodol trwy ein platfform hyfforddi sydd newydd ei ddatblygu - bydd y datblygiad hwn yn cael ei ddefnyddio yn y blynyddoedd i ddod, gan wneud hyfforddiant yn fwy hygyrch i'n harweinwyr.

### Cofrestru Digidol Siopswyddi

Addasodd ein Siopswyddi i gynnig gwasanaeth cwbl rhithiol yn ystod y pandemig. Cyflwynwyd meddalwedd recriwtio newydd, yn cefnogi myfyrwyr i gofrestru, ymgeisio am leoliadau a chwblhau taflenni amser i gyd ar-lein. Mae hyn wedi arbed llawer o negeseuon e-bost rhag mynd allan i fyfyrwyr bob dydd!

### Cyrsiau Datblygu Sgiliau Ar-lein

Llwyddodd dros 1,200 o fyfyrwyr i fynychu cyrsiau hyfforddi ar-lein trwy'r Gwasanaeth Datblygu Sgiliau, roedd y rhain yn amrywio o ddiplomâu, cyrsiau DPP, ac achrediadau Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

### Digwyddiadau Rhithiol Parc y Mynydd Bychan

Cynhaliwyd dros 20 o ddigwyddiadau rhithwir ar Instagram i hyrwyddo gwaith grwpiau myfyrwyr Parc y Mynydd Bychan, gan arwain at dros 2,000 o fyfyrwyr yn ymgysylltu ac yn gwylio'r cynnwys.

# Datblygu ein ardaloedd

## Mewn blwyddyn pan nad oedd ein hadeilad wedi gweld llawer o ddefnydd ar draws y gwasanaethau a'r gweithgareddau traddodiadol a fyddai fel rheol yn llawn i'r eithaf, roeddem yn gallu defnyddio'r amser (pan ganiataodd rheoliadau Covid-19) i adnewyddu a datblygu sawl ardal.

Ymhlith y datblygiadau roedd:

### Lolfa'r Trydydd Llawr

Adnewyddu gofod y lolfa ac ystafelloedd cyfarfod y 3ydd llawr, gan greu llawer mwy o le y gellir ei archebu i grwpiau myfyrwyr ei ddefnyddio

### Balconïau'r Neuadd Fawr

Ailddatblygwyd balconïau'r Neuadd Fawr, gan gynyddu hygyrchedd ein lleoliad gig enwog.

### Sgriniau Hysbysebu

Amnewidiwyd sgriniau hysbysebu ar draws yr adeilad, bydd hyn yn gwella golwg deunyddiau marchnata ac effaith amgylcheddol y sefydliad oherwydd perfformiad egni gwael yr hen sgriniau.



# Cefnogi ein staff

Roedd cefnogi ein staff i lywio heriau gweithio trwy gydol y pandemig yn thema graidd trwy gydol y flwyddyn.

**Enillodd Undeb Myfyrwyr Caerdydd wobr rhif 1 * yng ngwobrau'r Cwmnïau Gorau, sy'n dathlu ymgysylltiad yn y gweithle - gan gyflawni'r statws 'Cwmni Da Iawn i weithio iddo'. "**

## Sut rydym wedi cefnogi staff:

- Sicrhau bod gan staff perthnasol offer a safle gwaith addas.
- Cynllun ffyrlo cynhwysfawr a phecyn cymorth ar gyfer staff gyrfa a myfyrwyr, gan arwain at allu cadw'r holl staff gyrfa er gwaethaf cwymp sylweddol mewn incwm i'r sefydliad.
- Lansio cylchlythyr staff newydd a sesiwn Q&A byw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff trwy gydol y cyfnod gweithio o bell.

## Datblygiadau newydd

- Mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi arwain grŵp datblygu i adolygu polisïau Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chydraddoldeb, sy'n agored i bawb yn y sefydliad ac yn enghraifft o sut mae'r uwch dîm rheoli (UDRh) yn hyrwyddo gwerthoedd craidd.

**Byddai 75% o staff yn argymell Undeb Myfyrwyr Caerdydd fel lle da i weithio "**

# Cyllid



# Incwm a Gwariant

## Colled am y flwyddyn

Gwnaeth yr Undeb golled yn ystod y flwyddyn, oherwydd gostyngiad enfawr yn yr incwm cyffredinol a achoswyd gan y pandemig. Syrthiodd trosiant o fewn y grŵp o £10,280,850 yn 2019/20 i £5,967,126 gan arwain at ddiffyg ariannol net o £32,323 gyda chronfeydd wrth gefn grŵp yn gostwng i £1,205,522 o £1,342,303 yn 2019/20.

Daw mwyafrif incwm di-grant yr Undeb o adloniant hwyr y nos trwy ddigwyddiadau clwb nos neu sioeau cerddoriaeth fyw ac nid oedd y naill na'r llall yn bosibl yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ni chafodd y sianeli eraill o incwm masnachol sylweddol eu heffeithio'n arw - Gosodiadau Myfyrwyr a phrydlesu gofod yn adeilad yr Undeb - chynhyrchodd y rhain incwm yn unol â'n disgwyliadau.

.




## Rhagolwg ar gyfer 2021/22

Rydym wedi blaenoriaethu ailadeiladu ein gweithgareddau a'n gwasanaethau i fyfyrwyr dros y flwyddyn nesaf ond rydym yn disgwyl na fydd ein hincwm yn dychwelyd i'r arfer ar unwaith. Disgwyliwn na fydd incwm cyffredinol yn y flwyddyn yn dychwelyd i lefelau cyn-bandemig ar unwaith ac yn ystyried ei bod yn debygol y bydd ailgyflwyniad o rai mesurau pellhau cymdeithasol.

## Incwm ar gyfer datblygu

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ymgymryd â cham 1 o ailddatblygu hen ofod y Ganolfan Raddedigion ar drydydd llawr yr adeilad. Cwblhawyd y saith ystafell myfyrwyr newydd a thoiledau ychwanegol ym mis Medi 2020 gyda gwaith cam 2 yn digwydd yn ystod haf 2021 i gynyddu a gwella ein gofodau dysgu cymdeithasol.

# Y Fantolen

## Y Fantolen

Mae'r diffyg ariannol yn y flwyddyn wedi gwaethygu safle'r fantolen a gellir gweld effaith y pandemig mewn meysydd fel y gostyngiad yn y stoc sy'n cael ei ddal gan y grŵp. Fodd bynnag, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, ni fu unrhyw newidiadau sylweddol di-arian i'r fantolen yn ystod y flwyddyn. Ni ail-werthuswyd rhwymedigaethau pensiwn yr Undeb yn ystod y flwyddyn ac ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i adeilad yr Undeb, sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r asedau diriaethol. Gall newidiadau i'r ddwy eitem hon mewn blynyddoedd blaenorol ymddangos fel pe baent yn cael effaith ddramatig ar y fantolen; ond nid ydynt yn adlewyrchu perfformiad.

## Cronfeydd wrth gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa cronfeydd wrth gefn yr Undeb yn flynyddol ac yn gosod targedau ar eu cyfer yn seiliedig ar amgylchiadau'r sefydliad. Mae gan yr Undeb uchelgais tymor hir o gynhyrchu gwargedion nes bod £1.3m o gronfeydd wrth gefn. Cyflawnwyd y nod hwn yn ystod haf 2020 ond ni chyflawnwyd ef yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a disgwylir iddo ddirywio ymhellach oherwydd y diffyg cyllidebol disgwyliedig yn 2021/22. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi nodi bod dychwelyd i wargedion a chasglu cronfeydd wrth gefn yn flaenoriaeth wrth i'n hymgysylltiad myfyrwyr a'n gweithgareddau masnachol ddychwelyd i lefelau cyn-bandemig. Roedd cronfeydd wrth gefn y grŵp gwerth £1,284,592 (2019/20: £1,342,303).

**Mae'r Ymddiriedolwyr wedi nodi bod dychwelyd i wargedion a chasglu cronfeydd wrth gefn yn flaenoriaeth "**



# Ymddiriedolwyr

## Ymddiriedolwyr Sabothol

**Llywydd Undeb y Myfyrwyr:** Hannah Doe
(o 1af Gorffennaf 2021)

**Llywydd Undeb y Myfyrwyr:** Tomos Evans
(i 1af Gorffennaf 2021)

**IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli:** Chris Grieve
(o 1af Gorffennaf 2021)

**IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli:** Luke Evans
(i 1af Gorffennaf 2021)

**IL Chwaraeon a Llywydd yr UA:** Meg Somerville (o 1af Gorffennaf 2021)

**IL Chwaraeon Sports a Llywydd yr UA:** Jude Pickett (i 1af Gorffennaf 2021)

**IL Addysg:** Gina Dunn
(o 1af Gorffennaf 2021)

**IL Addysg:** Hannah Doe
(i 1af Gorffennaf 2021)

**IL Campws y Mynydd Bychan:** Sebastian Ripley

**IL Myfyrwyr Ôl-raddedig:** Orla Tarn

(o 1af Gorffennaf 2021)

**IL Myfyrwyr Ôl-raddedig:** Jane Chukwu

(i 1af Gorffennaf 2021)

**IL Lles ac Ymgyrchoedd:**
Charlotte Towlson

(o 1af Gorffennaf 2021)

**IL Lles ac Ymgyrchoedd:** Georgie East
(i 1af Gorffennaf 2021)

## Ymddiriedolwyr Myfyrwyr

Tariq Awan (o 1af Gorffennaf 2021)

Matthew Bird (o 1af Gorffennaf 2021)

Thomas Mahony-Kelross (i 1af Gorffennaf 2021)

Stephen Oldfield

Ryan Singh (i 1af Gorffennaf 2021)

Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan y Brifysgol

Jayne Sadgrove

Ray Singh CBE

## Ymddiriedolwyr Allanol

Natasha Applasamy
Richard Roberts
Bethan Walsh (i 7fed Gorffennaf 2021)

## Swyddfa gofrestredig

Park Place, Caerdydd, Cymru. CF10 3QN
Rhif Cwmni Cofrestredig: 07328777
Rhif Elusen Cofrestredig: 1137163

## Uwch Staff

**Prif Weithredwr:** Daniel Palmer

**Dirprwy Brif Weithredwr:** Ben Eagle

**Cyfarwyddwr Cyllid:** Christine Akers

**Cyfarwyddwr Cyfathrebu:** Raechel Mattey

**Cyfarwyddwr Ymgysylltad a Chyfranogiad:**
Steve Wilford

Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

